BETH MAE IACHAU'R CENHEDLOEDD YN EI GYFLAWNI?

Nodyn i'r siaradwr:
Pwysleisiwch ein hangen am ddarpariaethau cariadus y Creawdwr ynglŷn ag iachâd ysbrydol a chorfforol. Dangoswch pam mae iacháu ysbrydol o'r pwys mwyaf. Siaradwch yn frwdfrydig ac yn optimistaidd am y canlyniadau parhaol sydd i ddod yn sgil rhaglen iacháu eang Duw

MAE MAWR ANGEN AR Y DDYNOLIAETH AM IACHÂD (5 mun.)

Mae iacháu yn golygu adfer iechyd, gwneud yn holliach (*it*-1 1055)

Oherwydd pechod ac amherffeithrwydd etifeddol, mae gwir angen iacháu corfforol ac ysbrydol ar y ddynoliaeth (Rhuf 5:12)

Mae afiechyd yn dal i ladd pobl

Mae cymdeithas ddynol bechadurus hefyd mewn tywyllwch ysbrydol, wedi ymddieithrio oddi wrth Dduw (Eff 4:17-19)

Sut bydd Duw yn darparu iachâd corfforol ac ysbrydol?

Y MEDDYG MAWR YN DARPARU IACHÂD DEUBLYG (7 mun.)

Mae Jehofah, y Meddyg mawr, wedi gosod galluoedd ymadfer yn y corff dynol (*it*-1 1055)

Er i weision dynol Duw etifeddu pechod ac amherffeithrwydd, mae'n eu cynnal mewn afiechyd (Salmau 41:1-3)

Mae'r ffaith i Dduw hefyd iacháu rhai yn gorfforol yn y gorffennol yn dangos y gall wneud hynny yn y dyfodol

Adferodd iechyd Job wedi iddo gael ei gystuddio gan Satan (Job 42:10)

Iachawyd y brenin Heseceia ac ychwanegwyd at ei oes (Eseia 38:4, 5)

Mae Jehofah 'nawr yn darparu'r iacháu ysbrydol pwysicach ar gyfer rhai edifeiriol

Mae'n adfer nerth, clyw, lleferydd mewn modd ysbrydol (Eseia 35:3-6)

Gallwn elwa ar fudd a lles y ddau fath o iacháu

Bydd ystyried yr hyn a ddywed y Beibl am iacháu ysbrydol a chorfforol yn cryfhau ein ffydd yn rhaglen iacháu eang Duw

BU IESU A'R APOSTOLION YN IACHÁU YN GORFFOROL AC YN YSBRYDOL (10 mun.)

Iachaodd Iesu Grist bob math o afiechyd (Mth 9:35)

Nid cymhwysiad nerth neu ddoethineb Iesu ei hun a iachaodd y rhai claf (*it*-1 1056)

Ni ddefnyddiodd Iesu hypnotherapi, seicotherapi, neu ddulliau tebyg

Fe iachaodd drwy rym ysbryd Duw (Lc 5:17)

Dychmygwch lawenydd y rhai a iachawyd a'u teuluoedd (Lc 7:1-10)

Mae'r iacháu a wnaeth Iesu'r pryd hwnnw yn rhoi sicrwydd inni o'r hyn y gall ei wneud yn y dyfodol

Rhoddwyd awdurdod i'r apostolion i wella clefydau (Mth 10:1)

'Roedd yr iacháu hyn yn profi fod cefnogaeth ddwyfol iddo, ac 'roedd yn dod â hapusrwydd mawr (Act 3:1-9)

Wedi sefydlu Cristnogaeth yn gadarn, diddymwyd "doniau iacháu" (1Cor 12:8, 9; 13:8)

Wrth inni weld y claf neu'r llesg, efallai y tybiwn fod iacháu corfforol yn bwysig iawn

Ond yn bwysicaf oll oedd iacháu ysbrydol meddyliau a chalonnau gan Iesu

Tosturiodd wrth y tyrfaoedd yn bennaf "am eu bod yn flinderus a diymadferth fel defaid heb fugail" (Mth 9:35, 36)

Fel cenedl gwrthododd yr Iddewon Iesu ac iacháu ysbrydol

Mae llawer 'nawr heb fod yn ymwybodol o'u hangen ysbrydol ac heb ddirnad fod budd tragwyddol i bridwerth Iesu

Boed i ni lwyr werthfawrogi'r bridwerth ac iacháu ysbrydol

Ond pa iacháu sy'n digwydd heddiw?

YR HYN MAE'R IACHÁU SY'N DIGWYDD 'NAWR I'R CENHEDLOEDD YN EI GYFLAWNI (6 mun.)

Mae Israel ysbrydol yn ysbrydol olau (1Pedr 2:9)

Mae'r gweddill eneiniog yn ysbrydol iach (Heb 12:12, 13)

Mae'r "dyrfa fawr" sy'n gweithredu ffydd ym mhridwerth Iesu yn cael eu didoli er mwyn goroesi i fyd newydd cyfiawn

Mae Iesu Grist yn eu harwain at ddyfroedd bywyd (Dat 7:9-17)

Mae miloedd yn ymgysegru i Dduw, a chael eu bedyddio (Cyfeiriwch at ystadegau o'r *Yearbook* cyfredol)

Gallwch chi fod ymhlith y rheiny sydd wedi'u didoli i oroesi diwedd y drefn bresennol

Gwnewch lawn ddefnydd o'r darpariaethau dwyfol ar gyfer iacháu ysbrydol

Os gwnewch chi, medrwch lawenhau yng nghyflawniadau'r rhaglen eang iacháu sydd gan Jehofah ar gyfer y presennol a'r dyfodol

CYFLAWNIADAU YSBRYDOL A CHORFFOROL DISGWYLIEDIG Y RHAGLEN IACHÁU EANG (12 mun.)

Darluniwyd rhaglen iacháu eang Jehofah

Rhagfynegodd Eseciel am afon bywyd sy'n puro yn llifo o deml Jehofah (Esec 47:1, 12; *kj* 395-8)

Bydd y rhai sy'n gwrthod yfed yn marw, ond daw â bywyd i'r rhai sy'n yfed ohoni

Ar hyd glannau'r afon mae coed gyda ffrwythau a dail er iachâd y cenhedloedd

Sylwch ar ddarlun cyffelyb wrth inni ddarllen Datguddiad 22:1, 2 (*re* 310-12)

"Afon dŵr y bywyd" yn cynrychioli pob bendith i ddynoliaeth trwy Grist, sy'n cymryd ymaith bechod y byd (In 1:29)

Mae "dail y pren" yn cynnig dail a ffrwyth iachaol i ddarparu'r gwellhad ysbrydol a chorfforol angenrheidiol

Fel rhan o had Abraham, bydd 144,000 yn cael rhan yn estyn budd a lles i'r ddynoliaeth yn ystod y Mil Blynyddoedd (Gal 3:8, 29; Dat 14:1)

Hyd yn oed 'nawr, a hwythau'n "brennau teg" cyfiawnder, mae'r gweddill eneiniog yn pregethu ac felly'n cynnig i ddynoliaeth ffrwythau'r Deyrnas sefydledig (Eseia 61:1-3)

Beth yw rhai bendithion eraill i'r dyfodol sydd gan raglen iacháu Duw?

Rhagfynegodd yr iacháu corfforol a wnaeth Iesu fel y bydd yn defnyddio grym Meseianaidd i iacháu yn ystod Teyrnasiad y Mil Blynyddoedd (*it*-1 1056)

'Fydd dim angen meddygon mwyach wrth i iechyd corfforol gael ei adfer

Atgyfodir y meirw, a'u barnu yn ôl y gweithredoedd a wnânt y pryd hwnnw (In 5:28, 29)

Perffeithir yr holl rai ufudd ym Mharadwys (*w*91 12/15 12)

Yna sicrheir digonolrwydd bwyd iachusol (Salmau 72:16; 85:12)

'Fydd y gwrthryfelgar ddim yn mwynhau'r bendithion hyn, ond fe fedrwch chi fod ymhlith y cyfiawn fydd yn eu mwynhau am byth (Esec 18:20, 30-32)

GWNEWCH EICH RHAN YN Y GWAITH IACHÁU YSBRYDOL SY'N DIGWYDD 'NAWR (5 mun.)

A chwithau'n was i Jehofah, mae gennych y fraint odidog o ddweud wrth eraill am raglen iacháu eang Duw

Trwy gyfrwng gwaith diwyd pregethu'r Deyrnas, cynorthwywch nhw i dderbyn iachâd ysbrydol 'nawr

Dywedwch wrth y rhai gonest eu calon am yr amser sydd gerllaw pan sychir dagrau tristwch (Dat 21:3, 4)

Gwahoddwch nhw i ymateb i'r gwahoddiad i dderbyn dŵr y bywyd yn rhad (Dat 22:17)

Bydd gobaith heddwch, llawenydd, a bywyd tragwyddol i chi a'r rhai wnaiff wrando, a hynny'n bosibl oherwydd rhaglen iacháu eang Jehofah

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir)